Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26 Gorffennaf 2016

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, A. Williams, Mervyn Jones, B. Jones, J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, H. Huws, D. Williams, D. James, Meirion Jones, S. Edwards,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Cyfrifon Mis Gorffennaf 2016**		
	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir		
4.0	**Materion y Cyngor Sir**		
4.1	Meirion Jones wedi cadarnhau ar e-bost ei fod wedi adrodd i'r Cyngor Sir gordyfiant o wal cae Plas Newydd ar Lôn Graig, Llanfairpwll.		
4.2	Meirion Jones yn cadarnhau ar e-bost bod problem fawr gyda gwylanod yn yr ardal. Meirion Jones am holi'r Cyngor Sir I weld os oes modd lleddfu'r broblem.		
4.3	A. Mummery yn nodi fod Roy Hinchcliffe am drefnu gwaith ail linellu'r maes parcio.		
4.4	Ymgynghoriad safle sipsiwns - cytunwyd i yrru llythyr at y Cyngor Sir yn nodi gwrthwynebiad cryf i'r penderfyniad		
4.5	Fforwm Cyswllt - G. C. Jones wedi mynychu'r cyfarfod, nodi bod holiaduron am ei yrru ymlaen i drigolion yn 2017 mewn cysylltiad â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethol. Nodwyd hefyd bod gwefan Dewis Cymru am fynd yn fyw ar 30/06/16 ble mae trigolion yn diweddaru pob math o wybodaeth berthnasol leol. www.Dewis.Cymru.net <http://www.Dewis.Cymru.net>		
4.6	A, Mummery yn nodi bod newid trefniant casglu gwastraff yn newid yn Hydref I bob tair wythnos yn hytrach na dau.		
4.7	Nodwyd bod App Môn wedi mynd yn fyw		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26 Mehefin 2016**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones syn nodi ei bod yn ddeg mlynedd yn Hydref ers bu Kyffin Williams farw. Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r plac ar y sail hon.	**Meirion Jones**	**27/09/16**
6.3	Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond dim y llwybr beicio. CSYM am alw allan i edrych arno. S. Edwards yn nodi bod y llwybr beicio wrth y drosffordd A55 gyda gordyfiant drwg. Angen hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**27/09/16**
6.4	Ty Station Pringles - Clerc wedi ysgrifennu at Pringles yn gofyn a oes bwriad gwneud gwaith ar yr adeilad. Dim ymateb wedi derbyn hyd yn hyn.	**D. Owen**	**27/09/16**
6.5	Grant memorials fund am waith ar y cloc - A. Jones wedi ymweld â'r safle gyda Peter Llewelyn ac yn disgwyl iddo roi adroddiad ar gyflwr yr adeilad.	**A. Jones**	**27/09/16**
6.6	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - B. Jones yn nodi bod Ffrindiau'r Parc a'r Gors yn edrych am grantiau ar gyfer gwelliannau yn y parc.		
6.7	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery wedi ymweld â'r safle gyda chontractwr, ac yn disgwyl iddo roi adroddiad ar ei gyflwr	**A. Mummery**	**27/09/16**
6.8	Cais am fenthyciad gan y Clwb Bowlio - Cytunwyd ar ddrafft y cytundeb, clerc i yrru manylion ymlaen i'r Clwb Bowlio I'w cwblhau	**D. Owen**	**27/09/16**
6.9	Cyflwyno Awdit Mewnol - Nodwyd bod y cyfrifon dal gyda'r archwilir mewnol. Bydd	**D. Owen**	

	angen trefnu cyfarfod arbennig i gymeradwyo'r awdit mewnol.		
6.10	Maes Parcio'r Fynwent - Nodwyd bod angen cadarnhad swyddogol gan y Cyngor Sir am osod y tir i'r deilydd y cae presennol. Nodwyd bod pris o £180 wedi ei dderbyn gan Biffa i olchi wyneb y Maes Parcio a llwybr y Fynwent.	**D. Owen**	**27/09/16**
6.11	Cais Cynllunio Hen Lon Dyfnia - Nodwyd bod y cais wedi ei gyfeirio at lywodraeth Gaerdydd am benderfyniad.		
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Fynwent 05 Gorffennaf 2016**		
7.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Tyllau twrch daear - G. Parry am alw ar safle i arolygu i gadw llygaid ar y sefyllfa cyn penderfynu penodi contractwr i weithredu	**G. Parry**	
9.0	**Mabwysiadu Cod Ymddygiad Newydd**		
9.1	J. Roberts yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Cytunwyd I fabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd. Nodwyd bod angen cadarnhau'r cofnod I Michael Wilson ac yr Ombwdsman, a chyhoeddi mewn Papur Newydd. Mae angen disgwyl cadarnhad gan y Cyngor Sir os yw'n bosib gwneud cyhoeddiad ar y cyd gyda Chynghorau eraill.	**D. Owen**	
10.0	**Diweddaru'r Cynllun Iaith**		
10.1	Nodwyd bod angen diweddaru manylion y cynllun iaith. Clerc I yrru copi ymlaen i D. James ac mae o am roi cynigion ar newidion a gwelliannau.	**D. Owen**	**27/09/16**
11.0	**Arolwg Teithio Llesol**		
11.1	Cytunwyd I yrru copi ymlaen I John Gwilym Jones, cadeirydd y clwb cerdded lleol i ymateb yn swyddogol.	**D. Owen**	**27/09/16**
12.0	**Tagfeydd Traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd**		
	A. Jones wedi derbyn cwynion am dagfeydd ar y ffyrdd uchod.		
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	31C434 - Cais llawn i ddymchwel modurdy presennol ynghyd ac addasu ag ehangu yn Adra, 43a Y Wern, Llanfairpwll - Dim sylw		
13.2	31C385/VAR - Cais odan Adran 73 I ddiwygio amod (01) o ganiatâd cynllunio rhif 31C385 (newid defnydd modurdy i lety gwyliau) er mwyn caniatáu 5 mlynedd ychwanegol i gychwyn ar y datblygiad yn Nhŷ Newydd, Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Dim sylw		
13.3	Cais adeilad rhestredig ar gyfer newid defnydd allanol i'r estyniad a gafodd ei ganiatáu (31C423A/LB) yn 2 Tyddyn Pwyth, Llanfairpwll - Dim sylw		
13.4	Cais llawn i godi 5 uned gwyliau sydd yn cynnwys balconïau ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ym Mhlas Britannia, Llanfairpwll - Dim sylw		
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	Llythyr Ysgol David Hughes - Noson Wobrwyo - Derbyn y wybodaeth		
14.2	Grid Cenedlaethol - Diweddariad prosiect cysylltiad Gogledd Cymru - Nodwyd fod yr ymgynghoriad diwethaf yn dod i fyny. G. C. Jones yn nodi ei fod yn bwysig i bawb rhoi eu sylwadau.		
14.3	Cylchgrawn Clerks and Councils Direct - Derbyn y wybodaeth		
14.4	Ombwdsman - Adroddiad Blynyddol - Derbyn y wybodaeth		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 27 Medi 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad